LANGa17

Llech-hela a didoli ceirw

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â llech-hela a didoli ceirw. Mae'n ymwneud â'r gweithgareddau yr ydych yn eu gwneud i reoli poblogaethau ceirw gan ddefnyddio arf tanio.

Mae'r safon hon wedi ei dylunio i gefnogi'r rheiny sy'n rheoli poblogaethau ceirw gan ddefnyddio arfau tanio, naill ai mewn rhinwedd cyflogedig, galwedigaethol neu hamdden.

Er mwyn bodloni'r safon hon byddwch yn gallu:

- paratoi ar gyfer llech-hela
- adnabod ceirw unigol a grwpiau o geirw
- mynd yn ddigon agos at garw i sicrhau lladd yn drugarog
- saethu ceirw
- lleoli'r carw sydd wedi ei saethu a sicrhau bod yr anifail wedi marw
- cadarnhau bod y carw a saethwyd yn bodloni'r gofynion didoli.

Er mwyn i chi ddeall cynnwys y safon hon, a'r gweithgareddau y mae'n eu disgrifio, mae'n bwysig eich bod yn gallu deall y termau a ddefnyddir yn y safon. Gweler yr Eirfa am rai diffiniadau a ddylai eich helpu gyda hyn.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwneud gweithgaredd yn ddiogel, yn unol â gofynion perthnasol iechyd a diogelwch
2. gwisgo dillad ac offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
3. cyn llech-hela, adnabod y rhywogaeth, rhyw, dosbarth oed a chyflwr yr anifeiliaid fydd yn bodloni gofynion didoli ar yr achlysur hwnnw
4. dewis, cludo a pharatoi arfau tanio a ffrwydron i fodloni gofynion y didoliad a gynlluniwyd, yn unol â deddfwriaeth arfau tân a chodau ymarfer y diwydiant
5. dewis, paratoi a defnyddio offer a chyfarpar priodol sydd eu hangen ar gyfer gweithgareddau didoli, yn ddiogel ac yn effeithiol
6. anelu arf tanio am gywirdeb
7. dangos cywirdeb wrth ddefnyddio arf tanio o safleoedd tanio priodol
8. dewis carw unigol i fodloni gofynion didoli ac asesu yn unol â gofynion heliwr wedi ei hyfforddi
9. llech-hela carw ar bellter lle gellir cymryd ergyd ddiogel, effeithiol, trugarog a glân, gan ystyried nodweddion y lleoliad
10. ymdrin â'r arf tanio yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser, yn unol â chodau ymarfer perthnasol y diwydiant
11. saethu ceirw yn drugarog ac yn lân yn unol â nodweddion y lleoliad a'r gofynion cyfreithiol, gan ddefnyddio cymhorthion saethu lle y bo'n briodol
12. arsylwi adwaith y carw i'r ergyd i bennu ei gyflwr
13. mynd at y carw yn ddiogel yn unol â'i gyflwr tybiedig
14. lleoli a chadarnhau cyflwr y carw sydd wedi ei saethu
15. lladd ceirw wedi eu hanafu yn drugarog
16. cadarnhau statws y carw yn erbyn y gofynion didoli
17. glanhau, cynnal a chadw a storio'r arf tân a'r ffrwydron yn ddiogel ar ôl eu defnyddio, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol
18. cadw cofnodion cywir

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. y ddeddfwriaeth bywyd gwyllt ac amgylcheddol sy'n effeithio ar ddidoli ceirw
2. y gofynion iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â llech-hela a didoli ceirw, yn cynnwys y peryglon sy'n gysylltiedig â gweithio ar eich pen eich hun
3. dillad ac offer amddiffynnol addas ar gyfer y gweithgaredd
4. y rhesymau dros ddidoli ceirw fel rhan o reoli ceirw
5. y gofynion cyfreithiol sy'n rheoli perchnogaeth arfau tanio
6. y gofynion cyfreithiol sy'n rheoli storio, cludo a chario arfau tanio
7. y gofynion cyfreithiol a chodau ymarfer y diwydiant ar gyfer llech-hela a didoli rhywogaethau gwahanol o geirw
8. cylch bywyd a deinameg poblogaeth penodol, yn cynnwys deinameg grwpiau teuluoedd rhywogaethau gwahanol o geirw
9. sut caiff rhywogaethau ceirw eu hadnabod a'u dosbarthu o ran oed, rhyw a chyflwr
10. anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceirw, yn cynnwys arwyddion sydd yn cynnwys salwch
11. clefydau cyffredin ceirw yn cynnwys y rheiny y mae'n rhaid hysbysu yn eu cylch
12. gofynion cynefin rhywogaethau gwahanol o geirw
13. y posibilrwydd o garcas yn cael ei halogi yn sgil achosion amgylcheddol a all effeithio ar ansawdd helgig, yn cynnwys y ffactorau a all effeithio ar iechyd ar ôl bwyta
14. sut y gall nodweddion lleoliad, amser o'r dydd a'r tywydd effeithio ar llech-hela a didoli ceirw
15. sut i ddefnyddio cynefin a thirwedd i gynorthwyo llech-hela
16. yr arfau tanio gwahanol y gellir eu defnyddio wrth ddidoli
17. sut i ddewis y ffrwydron cywir a beth ddylid ei ystyried
18. pam y mae'n bwysig anelu reifflau
19. yr ystod gofynnol a lleoliad y bwled fydd yn sicrhau lladd yn ddiogel, yn drugarog ac yn lân
20. y dulliau o leoli a llech-hela carw a sut i ddewis carw unigol i gael ei ddidoli
21. y defnydd o seddi uchel i ategu llech-hela, yn cynnwys sut i ddringo'n dawel ac yn ddiogel i mewn i'r seddi
22. sut i wneud ergyd ddiogel, trugarog a glân ar dirwedd gwahanol a sut y gellir defnyddio cymhorthion i gynorthwyo cywirdeb saethu

23. sut i leoli ceirw wedi eu saethu, yn cynnwys pryd mae'n briodol i ddefnyddio cwn
24. adwaith carw i gael ei saethu mewn rhannau gwahanol o'r corff a sut i fynd at garw wedi ei saethu
25. yr arwyddion sydd yn dynodi ergyd
26. sut i gadarnhau cyflwr carw wedi ei saethu
27. y dulliau a ddefnyddir i ladd carw wedi ei anafu yn drugarog
28. sut i lanhau, archwilio a chynnal a chadw reifflau a pham y mae hyn yn bwysig
29. y cofnodion y mae angen eu cadw

Cwmpas/Ystod

Llech-hela a didoli ceirw:

- Unrhyw un o'r chwe rhywogaeth o garw gwyllt

  Coch

  Hydd Brith

  Sica

  Iwrch

  Carw'r Dŵr Tsieineiadd

  Muntjac

- Cymysgryw neu rhywogaethau/is-rywogaethau agos gysylltiedig yn y gwyllt
- Gellir defnyddio unrhyw fodd cyfreithiol o saethu i ladd carw
- Gellir defnyddio unrhyw offer cyfreithiol i gynorthwyo gyda llech-hela a didoli

Lleoli, mynd at a saethu ceirw mewn lleoliadau sydd yn cynnwys un o'r nodweddion canlynol:

- coediog
- agored
- gwastad
- pantiog
- bryniog
- mynyddig

Lleoli ceirw i gael eu didoli yn cynnwys:

- cymhorthion gweledol
- synhwyrau
- gwybodaeth leol

Lleoli ceirw wedi eu saethu gan ddefnyddio:

- cymhorthion gweledol
- arwyddion
- cŵn

Cadarnhau cyflwr canlynol y carw sydd wedi ei saethu:

- wedi ei anafu
- marw

Geirfa

Llech-hela – lleoli a mynd ato

Didoli – dewis a lladd anifeiliaid dros ben yn unol â chynllun didoli

Anelu – addasu arf tanio am gywirdeb

Lladd glân – lleoliadau ergyd, a llwybr bwled, sydd yn lladd ac yn osgoi halogi o gynnwys y stumog

Lladd trugarog – dull trugarog o ladd sy'n achosi cyn lleied â phosibl o straen i'r anifail

Nodweddion lleoliad:

- topograffeg
- cynefin
- gweithgareddau eraill yn yr ardal
- mynediad cyhoeddus

Trawiad – y dystiolaeth a adawyd ble'r oedd y carw yn sefyll, pan gafodd ei saethu

Offer a chyfarpar:

- ysbienddrych
- offer diogelwch personol
- cyllell
- offer cyfathrebu

LANGa17

Llech-hela a didoli ceirw

Datblygwyd gan	Lantra
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Ionawr 2017
Indicative Review Date	Ionawr 2021
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Lantra
RCU gwreiddiol	O29NCU49
Galwedigaethau perthnasol	Gweithiwr Ystâd; Llech-heliwr
Cyfres/Set	Helwriaeth a Rheoli Bywyd Gwyllt; Crofftwyr a Thyddynwyr
Geiriau Allweddol	carw; llech-hela; didoli; saethu; reiffl